

Ymateb i Orchymyn gan yr Anrhydeddus Dŷ'r Cyffredin
dyddiedig Ionawr 2001 ar gyfer

Ymchwiliad Plant Ysbyty Brenhinol Lerpwl Crynodeb ac Argymhellion

gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu Ionawr 2001

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb byr o'r canfyddiadau allweddol a'r prif argymhellion a gynhwysir yn Adroddiad Ymchwiliad Plant Ysbyty Brenhinol Lerpwl. At ddibenion cyfeirio yn unig y'i bwriedir.

Crynodeb

Cyflwyniad

1. Ein bwriad oedd ymchwilio i dynnu, cadw a gwaredu meinwe ac organau dynol yn dilyn archwiliadau post mortem Crwneriaid ac ysbytai ac i ba raddau y cydymffurfiwyd â Deddf Meinwe Ddynol 1961 (y Ddeddf). Roedd hyn yn golygu archwilio gweithredoedd a systemau arfer a rheolaeth broffesiynol gan gynnwys pa wybodaeth, os o gwbl, a roddwyd i rieni plant a fu farw mewn perthynas â thynnu, cadw a gwaredu organau neu feinwe.

Deddf Meinwe Ddynol 1961

2. Dyletswydd y clinigydd o dan Adran 1 (2) y Ddeddf yw penderfynu, ar ôl cynnal ymholiad mor rhesymol ag sy'n ymarferol, nad oes ganddo unrhyw reswm dros gredu bod unrhyw berthnasau i blentyn a fu farw, a oroesodd y plentyn hwnnw, yn gwrthwynebu i'r corff gael ei ddefnyddio at ddibenion therapiwtig, addysg neu ymchwil feddygol. Y man cychwyn fydd bod gan y clinigwyr reswm dros gredu y gallai'r rhieni wrthwynebu. Rhaid i gwmpas yr ymchwiliad olygu, ar ei ddiwedd, y gall y clinigydd nodi yn wirioneddol nad oes ganddo unrhyw reswm dros gredu y gallai fod gwrthwynebiad.

3. Mae tystiolaeth helaeth o fethiant ar ran clinigwyr i wneud yr ymholiadau angenrheidiol gyda rhieni i weld a oeddent yn gwrthwynebu. Nid oes unrhyw dystiolaeth yr ymdrechodd y proffesiwn meddygol erioed i ddadansoddi'r Ddeddf. Hyd yn oed nawr, dywedir wrthym nad ymdrinnir â'r materion hyn ar unrhyw gam yn y broses o addysg a hyfforddiant meddygol. Fodd bynnag, cydnabu clinigwyr mewn tystiolaeth, yr anawsterau wrth gysoni eu 'hagwedd dadofalaethol' â geiriad y Ddeddf. Cyfaddefont y dylid fod wedi gofyn i rieni, er enghraifft, ynglŷn â chadw calonnau. O ganlyniad, ni ellir cynnal yr agwedd dadofalaethol fel esboniad o'r hyn a ddigwyddodd. Y ffaith foel, yn seiliedig ar y dystiolaeth, yw nad ystyriodd y proffesiwn meddygol y Ddeddf yn gywir yn y lle cyntaf.

4. Gellir crynhoi'r methiant i gydymffurfio â'r Ddeddf ac anferthedd yr hyn a ddigwyddodd yn llygaid rhieni yn ystod blynyddoedd van Velzen, yn y cwestiwn canlynol:

'Oni fyddai unrhyw riant wedi gwrthwynebu pe dywedwyd wrthynt y byddai pob un o organau eu plentyn yn cael eu cymryd, ac yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael eu

gadael heb eu cyffwrdd am flynyddoedd heb unrhyw ymdrech hyd yn oed i gynnal archwiliad histolegol clinigol'

Y Crwner

5. Tynnwyd a chadwyd organau a meinwe mewn archwiliad post mortem. Mae darpariaethau Adran 1 (2) ac 1 (3) y Ddeddf yn berthnasol i gadw, yn dilyn archwiliad post mortem yr ysbyty. Nid oes gan y Crwner unrhyw bŵer i awdurdodi cadw organau at ddibenion addysg ac ymchwil feddygol ar ôl i bost mortem y Crwner ddod i ben.

6. Yn ystod ein Hymchwiliad, barn aneglur ddaeth i'r amlwg yn gyffredinol o ran yr hyn sy'n ofynnol gan glinigwyr yn ôl awdurdodaeth y Crwner. Roedd diffyg manylder ym meddyliau clinigwyr o ran pryd y mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Crwner am farwolaeth. Mae methu â chynnal archwiliad post mortem y Crwner (CPM) mewn achosion lle y dylid cyflawni archwiliad o'r fath yn golygu na chaiff arfer meddygol ei archwilio'n gywir ac y collir buddiannau bod yn agored ac yn eglur.

7. Ychwanegwyd at yr anawsterau yn Lerpwl gan fod Crwner EM, Mr Roy Barter, o'r farn mai penderfyniad gweinyddol syml oedd penderfynu a ddylid cynnal CPM, a ddirprwywyd, yn amhriodol, ganddo i Swyddog y Crwner. Mae'r penderfyniad yn un y dylid ei wneud yn bersonol gan y Crwner. Os bwriedir cadw organau ar gyfer addysg ac ymchwil feddygol ar ôl i awdurdodaeth y Crwner ddod i ben, dylai'r clinigydd gael caniatâd gan y Crwner a'r rhieni o'r cychwyn cyntaf. Fel arall, bydd cadw organau yn dilyn cwblhau archwiliad post mortem y Crwner yn anghyfreithlon.

8. Nid oedd gan Mr Barter system gywir ar gyfer dynodi'r achosion lle roedd histoleg yn ofynnol neu ar gyfer nodi'r organau neu'r feinwe i'w cadw ar gyfer archwiliad histolegol gan y patholegwyr. Ar sawl achlysur, derbyniwyd ganddo mai Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod (SIDS) oedd achos cywir marwolaeth heb gynnal archwiliad histolegol, tra'n gwybod mai diagnosis eithrio oedd SIDS, neu dylai fod wedi gwybod hynny. Wrth fethu â mynnu ar histoleg, mae'n rhaid ei fod wedi cofnodi achos marwolaeth anghywir mewn nifer o achosion.

9. Dylai fod wedi gwybod mai adroddiadau rhagarweiniol heb histoleg oedd yr adroddiadau a dderbyniodd gan yr Athro van Velzen, yn arbennig mewn achosion SIDS. Roedd ei systemau yn annigonol ac nid oedd unrhyw system ar gyfer mynd ar drywydd histoleg neu adroddiadau terfynol.

10. Nid oedd clinigwyr yn siŵr ynglyn â pha farwolaethau y dylid rhoi gwybod i'r Crwner amdanynt. Roedd rhai clinigwyr yn defnyddio bygythiad archwiliad post mortem y Crwner i gael caniatâd i gynnal archwiliad post mortem yr ysbyty. Roedd Swyddog y Crwner yn Lerpwl wrth benderfynu a ddylid cynnal archwiliad post mortem y Crwner yn fodlon ar achos y farwolaeth a nodwyd gan y clinigydd mewn amgylchiadau lle na fyddai'r Crwner, o bosibl, wedi bod yn fodlon.

11. Yn ddiamau, cyfrannodd llacrywdd yng ngweithdrefnau Mr Barter at yr oedi wrth ganfod camddefnydd yr Athro van Velzen o weithdrefnau post mortem.

Cadw Organau 1948-1988

12. Dechreuodd y casgliad calonnau ym 1948. Yn gyfleus, gellir cyfeirio at y cyfnod hwnnw fel y 'cyfnod cyn van Velzen'. Drwy gydol y cyfnod hwn, casglwyd calonnau fel arfer yn ddiarwybod i'r rhieni neu heb sefydlu a oeddent yn

gwrthwynebu. Dynoda'r dystiolaeth ei fod yn arferol tynnu organau yn ystod archwiliad post mortem a chymryd samplau ar gyfer archwiliadau microsgopig, gan alluogi i'r organ gael ei ddychwelyd i'r corff ar gyfer yr angladd. Fodd bynnag, golygai natur organau fel y galon neu'r ymennydd a oedd yn gorfod cael eu paratoi cyn y gellid eu harchwilio, eu bod o anghenrheid, nid yn unig yn cael eu cadw heb ganiatâd, ond ni ellid fod wedi'u dychwelyd i'r corff gan y byddai'n cymryd rhwng chwech ac wyth wythnos i'w paratoi.

13. Ymddengys y cymhwyswyd yr arfer a ddisgrifiwyd yn gyffredinol. Mae'r cyfiawnhad meddygol yn arwydd o'r ymagwedd dadofalaethol, hynny yw y polisi o gyfyngu ar ryddid a chyfrifoldeb rhieni gan dybio ei fod er eu lles hwy. I liniaru ar hyn, nodir fod y casgliad calonnau wedi lleihau'r gyfradd farwolaeth yn dilyn llawfeddygaeth gardiaidd ar gyfer rhai cyflyrau difrifol a chamffurfiannau o 33% i 3%. Ni ellir anwybyddu'r fantais hon, ond nid yw'n gyfiawnhad dros anwybyddu hawliau'r rhieni.

Y Casgliadau

Y Casgliad o Galonnau

14. Dechreuwyd y casgliad calonnau ym 1948 gan Dr John Hay, a ddaeth wedi hynny yn Athro Iechyd Plant, ac fe'i sefydlwyd yn amlwg yn ystod y cyfnod 1948-1954 gan barhau i dyfu ers hynny. Fe'i cedwir yn y Sefydliad Iechyd Plant (ICH) yn Alder Hey. Ym mis Hydref 1999 roedd y llyfrau cofnod calonnau a ryddhawyd i'r Ymchwiliad yn cyfeirio at 2,128 o galonnau. Fe'i ystyrir fel un o'r ddau brif gasgliad yn y wlad ac mae'n un o'r casgliadau mwyaf yn y byd. Fe'i defnyddiwyd gan lawer o arbenigwyr, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ym 1978 denodd nawdd gan Gronfa Ymchwil y Galon Genedlaethol ac wedi hynny Ymddiriedolaeth Greenwood, Sefydliad Prydeinig y Galon a Chronfa Waddol Ysbyty Brenhinol Plant Lerpwl. Prifysgol Lerpwl sy'n gyfrifol am reoli'r ICH. Lleolir yr adeiladau ar safle Alder Hey lle mae gan glinigwyr fynediad uniongyrchol at ddibenion addysg, ymchwil a llawfeddygol. Yn gyffredinol, yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth, daethom i'r casgliad mai'r Brifysgol ac Alder Hey ar y cyd oedd â'r cyfrifoldeb terfynol dros y casgliad.

Y Casgliad o Ffetysau

15. Cofnodwyd ym mis Chwefror 2000 bod y casgliad o ffetysau yn yr ICH yn cynnwys 1,564 o farw-enedigaethau neu ffetysau cyn-hyfyw gan gynnwys 52 o ffetysau cynamserol neu dymor llawn a fu farw, er nad oedd yr un ohonynt ers 1973. Dechreuodd y broses o storio meinwe ffetysau oedd yn bennaf gyflawn ym 1955 gyda manylion adnabod yn cael eu nodi o 1975 a daeth i ben ym 1992. Unwaith eto, Dr Hay oedd yn gyfrifol am ddechrau'r casgliad. Ym 1986, agorwyd adeilad newydd yr ICH a oedd yn cynnwys ystafell wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer storio ffetysau. Ar un adeg roedd y casgliad yn cynnwys cyfanswm o 3,575 o ffetysau ond yn y tair blynedd cyn trosglwyddo i adeilad newydd yr ICH, llosgwyd nifer sylweddol ohonynt. Wrth ymateb i gyfrifiad y Prif Swyddog Meddygol ym mis Chwefror 2000, derbyniodd y Brifysgol mai hi oedd yn gyfrifol am y casgliad o ffetysau yn yr ICH.

Y Casgliad o Ffetysau yn Myrtle Street

16. Yn dilyn dyfodiad yr Athro van Velzen ym 1988, dechreuwyd cyfeirio ffetysau i'w Uned Patholeg Ffetysau a Babanod gan grŵp rheoli Uned 3 gan gynnwys Ysbyty Mill Road, a gaewyd ym 1992, Ysbyty Mamolaeth Lerpwl, a gaewyd ym 1995, a'r Ysbyty i Ferched yn Catherine Street, a gaewyd ym 1995. Yn dilyn hynny,

ymgorfforwyd y tri ysbyty i Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Merched Lerpwl a sefydlwyd ym 1992. Gwasanaeth rhanbarthol diagnostig ar gyfer abnormaleddau ffetysol oedd hwn yn ei hanfod a derbyniwyd tua 100 ffetws bob blwyddyn. Ni fodolai'r gwasanaeth cyn penodi'r Athro van Velzen. O ganlyniad i fethiant yr Athro van Velzen i ofalu am y gwasanaeth patholeg ffetysau, cafwyd ôl-groniad nas ddatryswyd fyth. Ym mis Rhagfyr 1999, cadwyd 445 ffetws yn Myrtle Street yn dyddio o 1989-1991. O'r 445 ffetws, roedd 198 yn gyflawn. Ym mis Chwefror 2000, nodwyd 30 ffetws arall. Nid oes llawer o amheuaeth y daeth mwyafrif y ffetysau yn Myrtle Street drwy lwybr diagnostig y GIG ac y trosglwyddwyd y gweddill gan yr ICH. Cynhaliwyd peth ymchwil ar y casgliad hwn o ffetysau. Rhaid i Alder Hey dderbyn cyfrifoldeb cyffredinol dros y casgliad o ffetysau yn Myrtle Street. Fodd bynnag, roedd y defnydd a wnaed ohono yn cynnwys gweithgaredd ymchwil gan y Brifysgol, sydd yn gorfod derbyn rhywfaint o gyfrifoldeb dros ei fodolaeth.

Y Casgliad o Rannau Cyrff Plant yn y Sefydliad Iechyd Plant

17. Mae'r storfa yn cynnwys nifer o bennau a chyrrff cyflawn plant yn dyddio gyfnod ymchwil taflod hollt ddeintyddol yn yr 1960au. Gwaredwyd rhywfaint o ddeunydd gan ddilyn trefniadau angladd priodol a gwaredwyd llawer ohono ar yr adeg y symudwyd o'r Ysbyty Deintyddol. Roedd y deunydd a drosglwyddwyd i'r ICH yn sylfaen ar gyfer ymchwil tan 1973/74. Roedd nifer o ysbytai yn cyflenwi cyrrff, unwaith y darparwyd caniatâd, at ddibenion ymchwil. Mae'r storfa bellach yn cynnwys 22 o rannau corff 15 o blant. Mae 13 o bennau /rhannau o bennau ôl-enedigol plant o ychydig ddiwrnodau oed hyd at 11 oed yn dyddio o'r 1960au a 22 o bennau ffetysau cynamserol hwyr/tymor llawn a fu farw. Mae dau gynhwysydd gyda chorff cyfan plentyn mewn un a'r pen yn y llall. Efallai mai'r sbesimen mwyaf annifyr yw pen bachgen 11 oed. Cafwyd y sbesimen diweddaraf ym 1973. Cynhyrchwyd cyhoeddiadau helaeth mewn perthynas â'r gwaith a wnaed ar gamffurfiannau taflod hollt. Nid oes unrhyw amheuaeth mai'r Brifysgol sy'n gyfrifol am y casgliad hwn, o gofio natur a dibenion y casgliad.

Y Casgliad Meinwe Llygaid yn Ysbyty Athrofaol Brenhinol Lerpwl

18. Hysbysodd y Brifysgol yr Ymchwiliad am y casgliad o lygaid ffetysau ar 24 Mawrth 2000. Cymerodd beth amser i ni drefnu cyfleusterau i weld y casgliad. Sefydлом fod y storfa yn cynnwys 188 o lygaid a 2 nerf y llygad o 109 o sbesimenau. Mae'r mwyafrif yn cynnwys y llygad chwith a'r llygad dde ond mae yna rai sbesimenau lle mai dim ond un llygad sy'n bresennol. Tynnwyd nifer o'r llygaid o blant mewn archwiliadau post mortem yn Alder Hey. Cafwyd y mwyafrif ohonynt o ffetysau ond amlygom 12 o achosion lle y tynnwyd llygaid babanod newydd-anedig a phlant penodol. Dim ond am awr y bu'r plentyn ifancaf fyw, yr hynaf am 21 mis. Cymerwyd y sbesimenau o ffetysau mor bell yn ôl â 1988. Defnyddiwyd cyfanswm o 79 o'r 109 o sbesimenau mewn ymchwil. Erys y sbesimenau eraill yn y casgliad yn gyflawn, wedi'u storio mewn sefydlyn. Mae 100 o lygaid wedi'u dadansoddi ac 88 o lygaid heb eu dadansoddi. Cadwyd yr holl lygaid a chânt eu storio mewn ystafell â chlo dwbl yn Ysbyty Athrofaol Brenhinol Lerpwl. Yn amlwg, y Brifysgol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y casgliad llygaid yn y pen draw.

Deunydd Anifeiliaid yn yr ICH/Myrtle Street

19. O fewn y casgliad calonnau ond wedi'u cadw ar wahân, ceir nifer fach o galonnau anifeiliaid a gadwyd ar gyfer gwaith cymharol yn bennaf. Ceir nifer fach o galonnau o foch, wŷn, llygod mawr a chywion. Mae rhai calonnau o rywogaethau prin

iawn o anifeiliaid gan gynnwys cangarŵ coch, gibon a chrwban mawr, a roddwyd i'r ICH ar gyfer astudiaethau cymharol. Cedwir y calonnau hyn ar silff hollol ar wahân i'r calonnau dynol ac fe'u labelir yn glir. Nid oes unrhyw awgrym y storiwyd calonnau'r anifeiliaid yn yr un cynwysyddion â chalonnau dynol. Storiwyd rhywfaint o ddeunydd anifeiliaid hefyd yn Myrtle Street yn yr islawr. Yn benodol, cynhaliwyd ymchwil ar galonnau ŵyn a moch bach mewn perthynas â marwolaeth yn y crud. Storiwyd y deunydd hwn ar wahân i ddeunydd dynol ac nid oes unrhyw amheuaeth y cadwyd deunydd anifeiliaid yn yr un cynhwysydd â meinwe neu organau dynol.

Y Casgliad Cerebelwm

20. Ym mis Awst 2000, darganfuom fodolaeth casgliad cerebelwm. Tynnwyd y cerebela o ymennydd a gadwyd eisoes yn Myrtle Street, lle y'u casglwyd yn ystod blynyddoedd van Velzen. Datgelodd Alder Hey yr effeithiwyd ar 147 o deuluoedd ac yn benodol, dywedwyd wrth 58 set o rieni a oedd eisoes wedi cynnal ail angladdau bod yna cerebela i'w claddu o hyd. Ni ddatgelodd y Brifysgol fodolaeth y casgliad ar ddiwedd 1999, fwy na thebyg er mwyn cwblhau ymchwil. Cadwodd y casgliad er gwaethaf gwybodaeth gyhoeddus am ddychwelyd organau ar gyfer ail angladdau ac anocheledd cynnal trydydd angladdau.

1988 i 1995 - Blynyddoedd van Velzen

21. Ar 20 Mawrth 1987 cynigiodd y Sefydliad dros Farwolaeth Sydyn ymhlith Babanod (FSID) £250,000 dros gyfnod o bum mlynedd i ariannu Cadair Patholeg Ffetysau a Babanod newydd yn yr Adran Batholeg. Roedd y swm i dalu cyflogau dau ddarlithydd clinigol, technegydd ymchwil ac ysgrifenyddes. Derbyniwyd y cymorth hwn gan yr FSID ar y ddealltwriaeth y byddai rhan sylweddol o'r ymdrech ymchwil yn ymwneud â phroblem marwolaeth yn y crud. Derbyniwyd y cynnig.

22. Nid oedd yr Athro Wigglesworth, un o'r aseswyr allanol, o'r farn bod yr adnoddau cynlluniedig yn ddigonol i fod yn sylfaen i ddarparu gwasanaeth clinigol llwyddiannus a theimlai y byddai'r Gadair yn methu ar y sail honno.

23. Roedd ymdeimlad o fewn y pwyllgor dethol y byddai Dr van Velzen yn cael ei benodi er gwaethaf y ffaith mai dim ond 27 o bapurau a gyhoeddwyd ganddo, gydag 20 ohonynt mewn Iseldireg er mai Saesneg yw dewis iaith cyhoeddiadau rhyngwladol. Nododd ei gefnogwyr hyd yn oed ei fod yn benodiad peryglus. Roedd yn 38 mlwydd oed. Dywedodd wrth y pwyllgor cyfweld ei fod wedi bod i weld Miss Malone, Rheolwraig Gyffredinol yr Uned yn Alder Hey, i drafod y gwasanaeth clinigol. Celwyd oedd hwn.

24. Gwnaed y penodiad yn erbyn cefndir o bryder unfrydol, fwy neu lai, ynglyn â'r adnoddau oedd ar gael. Roedd yr adeiladau a'r offer yn annigonol. Roedd yr adnoddau clinigol yn cwmpasu 1-1½ diwrnod yr wythnos. Anwybyddodd awdurdodau'r Brifysgol yr holl gyngor darbwyllo a'r rhybuddion gwybodus.

25. Ni fu Uwch Ddarlithydd yn y swydd heblaw am Dr Chan ar lefel darlithydd rhwng diwedd 1989 a dechrau 1991 a meddyg dros dro, yr Athro Ronald Kaschula, drwy gydol 1994. O'r ddwy swydd ar gyfer darlithwyr clinigol, dim ond un oedd yno, sef Dr Khine, a hynny ddim ond ar ôl 14 Hydref 1991.

26. O fewn wythnos o dderbyn y Gadair ym 1988, cyhoeddodd yr Athro van Velzen gyfarwyddyd yn yr Uned Patholeg Ffetysau a Babanod na ddylid gwaredu unrhyw ddeunydd dynol. Dechreuodd y storfa o ddeunydd gynyddu ac oherwydd ei

arfer a'i angen am samplau, golygai hyn organau cyfan. Gwnaed y penderfyniad i beidio â gwaredu unrhyw ddeunydd cyn i unrhyw ôl-groniad ddatblygu a dynoda hyn nad diffyg adnoddau oedd y rheswm pennaf dros gadw organau.

27. Yn fuan wedi hynny, rhoddodd yr Athro van Velzen y gorau i ddadansoddi organau yn histolegol fel rhan o'i ddadansoddiadau clinigol arferol. Yn hytrach, paratôdd adroddiadau hir a ymddangosai'n fanwl yn seiliedig ar ganfyddiadau o'r hyn a welwyd â llygaid noeth yn ystod y broses o ddiberfeddu.

28. Ym 1989 gosodwyd system gyfrifiadurol yn Myrtle Street a dechreuodd yr Athro van Velzen ddefnyddio patrymlun ar gyfer adroddiadau post mortem a ddiwygiwyd ganddo yn bersonol ymhob achos.

29. Cyflwynodd yr Athro van Velzen adroddiadau rhagarweiniol heb ddadansoddiad histolegol. Cafwyd ôl-groniad o adroddiadau post mortem rhagarweiniol, yn ogystal ag ôl-groniad o histoleg post mortem ac adroddiadau terfynol.

30. Ni chuddiodd yr Athro van Velzen y ffaith nad oedd bellach yn darparu histoleg post mortem fel y darparwyd gan ei ragflaenwyr.

31. Daeth ymchwil i'r amlwg fel prif weithgaredd yr Athro van Velzen, yn arbennig i SIDS gyda'r prif ymchwil yn cael ei chynnal i ganlyniadau arafwch twf yn y groth. Defnyddiodd ddull ymchwil stereoleg a oedd yn gofyn am organau cyfan.

32. Erbyn gwanwyn 1991 fan bellaf, gwyddai'r Bwrdd Gweithredol yn Alder Hey nad oedd histoleg post mortem yn cael ei chynnal.

33. Erbyn hydref 1992 fan bellaf, gwyddai'r Brifysgol nad oedd yr Athro van Velzen yn cyflawni ei gontract ar gyfer sesiynau clinigol.

34. Ni fu cyd-archwiliad rhwng y GIG a'r Brifysgol ym 1992/3 yn effeithiol.

35. Methodd cyd-arolwg rhwng y GIG a'r Brifysgol ym mis Mehefin 1993 â nodi a gweithredu ar ddiffygion yr Adran fel uned pan ddaeth i'r amlwg i'r ddwy ochr nad oedd histoleg post mortem yn cael ei chynnal o hyd.

36. Ni lenwyd y swydd ar lefel rheoli yn y Brifysgol, a ddaeth yn wag yn dilyn ymddeoliad yr Athro Heath fel Pennaeth yr Adran Batholeg, mewn gwirionedd, tan 1994 yn sgîl dyfodiad yr Athro Christopher Foster.

37. Yr Athro Foster oedd y person cyntaf i ddarparu goruchwyliaeth, gwerthusiad a chynllun gwaith cywir i'r Athro van Velzen ar ddechrau 1995, y dylid fod wedi'u darparu yn dilyn cyd-arolwg y Brifysgol ac Alder Hey ym 1993.

38. Yn ystod ei gyfnod yn Lerpwl, roedd yr Athro van Velzen yn euog o'r gweithgareddau canlynol:

- yn syth ar ôl iddo gyrraedd, gorchynnodd yr Athro van Velzen yr arfer anfoesol ac anghyfreithlon o gadw pob organ ymhob achos at ddiben ymchwil yn bennaf;
- ffugio cofnodion, ystadegau a chynnyrch gwaith;
- ffugio ceisiadau am ymchwil;
- ffugio adroddiadau post mortem;

- cyflwyno cynrychiolaeth ffug fod diagnosisu SIDS wedi'u cefnogi gan archwiliad histolegol a chyflwyno papurau a adolygwyd gan gyfoedion ar y sail bod y pwnc yn seiliedig ar achosion SIDS dilys lle na chynhaliwyd unrhyw histoleg;
- anwybyddu caniatadau ysgrifenedig i archwiliadau post mortem cyfyngedig;
- dweud celwydd wrth rieni am ei ddulliau a'i ganfyddiadau post mortem;
- camarwain y Prif Weithredwr yn Alder Hey, Miss Hilary Rowland, am ei arfer clinigol wrth gynnal archwiliadau post mortem;
- methu ag ymateb i geisiadau clinigwyr a rheolwyr i gyflwyno adroddiadau post mortem a histoleg yn brydlon;
- achosi oedi wrth gyflwyno adroddiadau archwiliadau post mortem a histoleg i'r fath raddau fel y ganed o leiaf un ail blentyn gyda'r un cyflwr geneteg ag un o blant cynharach y teulu;
- methu â darparu gwasanaeth patholeg ffetysau yn y blynyddoedd cynnar a gwasanaeth effeithiol wedi hynny;
- achosi cronid gormodol, anghyfreithlon ac anfoesol diangen o organau yn dilyn archwiliadau post mortem, yn ôl pob golwg i gynnal ymchwil ond heb unrhyw debygolrwydd y byddai'r rhan fwyaf o'r organau a storiwyd mewn cynwysyddion yn cael eu defnyddio fyth ar gyfer ymchwil;
- methu â chadw catalog neu gofnod cywir o'r organau a storiwyd;
- methu â chadw cofnod cywir o fynediad i'r organau a storiwyd at ddibenion ymchwil;
- annog staff i ffugio cofnodion ac ystadegau;
- methu â chynnal gweithdrefnau cyfrifo cywir o fewn ei Adran;
- dewis peidio â dilyn arfer clinigol heb unrhyw achos neu heb achos cyfiawn;
- twyllo'r Sefydliad dros Farwolaeth Sydyn Babanod, y Brifysgol ac Alder Hey;
- gwrthod y cyfle i glinigwyr roi cyngor clinigol cywir i'w cleifion a'r cyfle i ystyried eu cyfeirio i gael cwnsela geneteg; ac
- wrth ymadael, mynd â chofnodion meddygol cyflawn o Alder Hey a gadael yr Adran â diffyg cyllidebol o fwy na £70,000.

39. Rhaid sicrhau na chaiff yr Athro van Velzen ymarfer fyth eto. Byddwn yn hysbysu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus am ei ymddygiad.

Diffygion Rheolwyr

40. Methodd Alder Hey a'r Brifysgol â darparu adnoddau cywir ar gyfer Cadair Patholeg Ffetysau a Babanod o'r cychwyn cyntaf.

41. Anwybyddodd Alder Hey a'r Brifysgol rybuddion gan aseswyr annibynnol yn nodi nad oedd gofynion hanfodol y swydd ar gael.

42. Methodd Alder Hey a'r Brifysgol, gan wybod y risgiau a oedd ynghlwm â phenodi'r Athro van Velzen i Gadair Patholeg Ffetysau a Babanod, â goruchwyllo a rheoli perfformiad yr uned newydd.

43. Methodd Alder Hey a'r Brifysgol mewn cydweithrediad ag Awdurdod Iechyd Rhanbarthol Merswy â darparu adnoddau ar gyfer y gwasanaeth patholeg amenedigol mewn ymateb i geisiadau'r Athro van Velzen am help ym 1988 a 1990.

44. Methodd y Brifysgol ar unrhyw gam â chydabod eu cyfrifoldeb dros ddarparu adnoddau ar gyfer Cadair Patholeg Ffetysau a Babanod.

45. Methodd Alder Hey a'r Brifysgol â gweithredu'r cynllun gwaith a'r oruchwyliaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn sgîl eu Cyd-Arolwg ym 1993.
46. Roedd y Prif MLSOs yn rhan o ffigiadau'r Athro van Velzen a chaniataodd y Rheolwr Gwasanaethau yn Alder Hey iddo gael ei dwyllo.
47. Methodd Alder Hey a'r Brifysgol â sicrhau yr ailgyflwynwyd histoleg pan ddaethant yn ymwybodol fod yr Athro van Velzen wedi rhoi'r gorau i'r gwasanaeth o wanwyn 1991 yn achos Alder Hey a Mehefin 1993 yn achos y Brifysgol.
48. Methodd Alder Hey a'r Brifysgol â monitro a mynd ar drywydd cwynion am oedi wrth ddarparu adroddiadau post mortem a histoleg.
49. Caniataodd Alder Hey a'r Brifysgol i'r Athro van Velzen ymwrthod â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau clinigol.
50. Methodd Alder Hey a'r Brifysgol gyfleoedd niferus i ddisgyblu'r Athro van Velzen am resymau cyfiawn o 1989 ymlaen.
51. Methodd Alder Hey a'r Brifysgol ag ymchwilio i arfer post mortem yr Athro van Velzen yn y cyfnod o 1988 i 1995 a fyddai wedi datgelu bod pob organ yn cael ei gadw ymhob achos.
52. Methodd Alder Hey a'r Brifysgol â chymhwyso neu fynd ar drywydd gweithdrefnau archwilio a systemau rheoli cywir yn Uned Patholeg Ffetysau a Babanod yr Athro van Velzen drwy gydol ei gyfnod yn ei swydd pan oedd rheswm dros archwiliadau parhaus.
53. Methodd Alder Hey â sefydlu proses briodol ar gyfer catalogio organau gan adael hynny i'r Brifysgol heb sefydlu llwybr archwilio cywir pe byddai ymchwiliad pellach.
54. Methodd y Brifysgol â sefydlu system briodol ar gyfer catalogio organau.
55. Anwybyddodd y Brifysgol y gwrthdaro buddiannau oedd rhyngddi ac Alder Hey ac FSID yn rheolaidd.
56. Methodd Alder Hey a'r Brifysgol ag atal gormodeddau'r Athro van Velzen, gan beryglu gofal i gleifion drwy hynny.

Ymdrin â'r Newyddion am Gadw Organau o fis Medi 1999

57. Dylai Alder Hey a'r Brifysgol fod wedi cadw pathologydd paediatrig i arwain tîm i gatalogio'r organau a'r rhannau a gadwyd ym mis Medi 1999. Byddai'r ymarfer hwn wedi datgelu'r amhosibilrwydd o roi cyfrif cywir o'r holl organau a gadwyd o ganlyniad i gofnodion gwael a mynediad ymchwil nas cofnodwyd i'r organau. Ni fydd Alder Hey na'r Brifysgol fyth yn gallu rhoi gwybodaeth fanwl gywir i rieni am yr hyn a ddigwyddodd i holl organau pob plentyn a fu farw rhwng 1988 a 1995. Ni dderbyniodd y Brifysgol ei chyfrifoldeb erioed yn hyn o beth a gadawyd i Alder Hey gyflawni cyfres o gamgymeriadau. Yn eu plith mae pedair neu bum ymgais i roi gwybodaeth gywir i rieni ynghylch cadw organau, heb ddysgu o'r camgymeriadau a wnaed ymhob ymgais flaenorol, a gwaethygu'r sefyllfa ymhellach. Dylai Alder Hey a'r Brifysgol fod wedi nodi a datgelu'r casgliad cerebelwm a'r casgliad llygaid yn gynharach.

58. Methodd Alder Hey â gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer cyfathrebu newyddion am gadw organau wyneb yn wyneb i'r rhieni. Methwyd â darparu cyngor, cwnsela a chymorth angenrheidiol addas i'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt. Er bod Alder Hey yn wynebu sefyllfa unigryw yn nhermau nifer a chyflwr yr organau yn Myrtle Street, roedd diffyg rheolaeth gywir. O ganlyniad, rhoddwyd gwybodaeth anghyflawn i rieni a darparwyd gwybodaeth a oedd yn aml yn anghywir. Ni wnaed unrhyw ymgais wirioneddol i gatalogio tan fis Mehefin 2000. O ganlyniad, roedd pob darn o newyddion a roddwyd i rieni yn gwaethygu eu hymateb. O'r cychwyn cyntaf dylent fod wedi cyflogi Seicolegydd Ymgynghorol i gynorthwyo wrth lunio'r dull gorau o gyflwyno gwybodaeth i'r rhieni yr effeithiwyd arnynt.

Y Rhieni

59. Drwy gydol yr Ymchwiliad hwn, bu buddiannau'r rhieni yn holl bwysig. Dim ond drwy ddadansoddi eu tystiolaeth y mae'n bosibl gwerthfawrogi effaith y digwyddiadau hyn arnynt. Hanfod eu cwyn oedd iddynt gael eu camarwain yn fwriadol i gredu eu bod yn claddu eu diweddar blant yn gyflawn, lle mewn gwirionedd yr oedd organau pob plentyn wedi'u tynnu'n systematig, a'r mwyafrif helaeth ohonynt wedi'u storio, heb eu defnyddio, o 1988 i 1999. Effaith y strategaeth drin annigonol a fabwysiadwyd gan Alder Hey oedd gwaethygu'r sefyllfa i'r graddau bod rhai teuluoedd wedi wynebu sawl angladd oherwydd y dychwelwyd yr organau iddynt fesul darn dros y 14 mis diwethaf. Mae rhai organau heb eu dychwelyd o hyd.

Argymhellion

Pennod 3. Ymdrin â'r mater o gadw organau Medi 1999 hyd heddiw

Argymhellion

Er mwyn atal camdrafod o'r math hwn yn y dyfodol, cyflwynwn yr argymhellion canlynol:

- Dylid datblygu Gweithdrefnau Digwyddiadau Difrifol a'u rhoi ar waith.
- Pe ceir digwyddiad difrifol, bydd y Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn llunio Gweithdrefn Digwyddiad Difrifol addas yn debyg i'r rheini sydd eisoes ar waith ar gyfer trychinebau mawr a'i hadolygu o bryd i'w gilydd gan wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.
- Ar ôl llunio'r weithdrefn a chyn ei gweithredu, bydd Swyddfa Ranbarthol Weithredol y GIG yn asesu ei haddasrwydd ac wedi hynny yn rheoli ei pherfformiad, gan lunio a sefydlu unrhyw newidiadau angenrheidiol o bryd i'w gilydd.
- Wrth lunio Gweithdrefn Digwyddiad Difrifol bydd y Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried yr angen am dîm digwyddiad difrifol yn annibynnol ar yr ysbyty.
- Wrth lunio Gweithdrefn Digwyddiad Difrifol bydd y Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried yr angen am gwnsela proffesiynol brys:
 - Mae'n debygol bob amser y bydd angen cymorth seicolegol ar gyfran o unigolion o fewn unrhyw grŵp yn dilyn trychineb.
 - Enwebir unigolyn o fewn y tîm digwyddiad difrifol i fod yn gyfrifol am y trefniadau ac am nodi pawb sydd mewn angen.
 - Bydd ymarferwyr â hyfforddwyd yn briodol yn darparu'r cwnsela.

- Wrth lunio Gweithdrefn Digwyddiad Difrifol bydd y Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael cyngor gan arbenigwyr priodol ym maes profedigaeth, ymatebion patholegol i brofedigaeth a therapi, a lle bo'r angen yn eu cynnwys o fewn y tîm digwyddiad difrifol.
- Bydd y Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod staff â hyfforddwyd yn briodol ar gael i weithredu'r Weithdrefn Digwyddiad Difrifol.
- Bydd y Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn hysbysu pob aelod o'r staff pan fydd Gweithdrefn Digwyddiad Difrifol ar waith.
- Bydd y Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau y rhoddir y wybodaeth a'r cymorth priodol i bob aelod o'r staff sy'n ymwneud â digwyddiad difrifol.
- Bydd prifysgolion a chyrff cyhoeddus eraill yn mabwysiadu gweithdrefnau cydnaws wrth weithredu mewn cydweithrediad â digwyddiad difrifol o fewn y GIG.

Dylid adolygu a diweddarau cofnodion a dylid datblygu llwybr archwilio a'i roi ar waith.

- Bydd y Prif Weithredwr a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu ac yn diweddarau cofnodion meddygol a phatholegol i gynnwys, yn ddelfrydol ar gyfrifiadur ac wedi'i chroesgyfeirio, y wybodaeth ganlynol:
 - enw, rhif cyfeirnod cofnodion meddygol a dyddiad geni;
 - dyddiad, lleoliad marwolaeth a thystysgrif marwolaeth;
 - enw a chyfeiriad y perthynas agosaf;
 - a gyflawnwyd archwiliad post mortem Crwner neu ysbyty;
 - dyddiad y caniatâd ar gyfer archwiliad post mortem ysbyty;
 - enwau'r patholegydd a'r rheini oedd yn bresennol;
 - rhif cyfeirnod yr archwiliad post mortem;
 - dyddiad yr archwiliad;
 - dyddiad yr adroddiadau post mortem rhagarweiniol/terfynol;
 - dyddiad y cwblhawyd yr histoleg;
 - cofnod o gyfarwyddiadau penodol gan y Crwner neu'r clinigwyr;
 - cofnod o'r organau a gadwyd, samplau, blociau cŵyr, sleidiau, ffotograffau, lluniau pelydr-X, dyddiad a dull dosbarthu neu waredu;
 - nodiadau'r achos;
 - ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi;
 - copi o unrhyw ohebiaeth neu nodiadau perthnasol;
 - enw a chyfeiriad y meddyg teulu;
 - dyddiad yr anfonwyd yr adroddiad post mortem at y meddyg teulu;
 - cofnod o'r broses o gyfleu'r canfyddiadau i'r perthynas agosaf.
- Bydd cofnodion prifysgolion yn darparu llwybr archwilio cyfrinachol yn ôl i'r cofnod clinigol.
- Bydd cofnodion prifysgolion yn nodi derbyn, defnyddio, dosbarthu a gwaredu unrhyw organ neu sampl yn derfynol.

Pennod 8. Blynyddoedd van Velzen

Argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol yn deillio o'r camgymeriadau yn ystod 'Blynyddoedd van Velzen' ac maent yn hanfodol er mwyn osgoi eu hailadrodd pe deuai Athro van Velzen arall i'r amlwg. Mae'r argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth yn yr ystyr eu bod yn gamau diogelu syml yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r camgymeriadau gwirioneddol a wnaed gan Alder Hey a'r Brifysgol. Mae llawer o'r camgymeriadau o fath y gellid tybio eu bod yn digwydd yn aml ond nad ydynt, fel arfer, yn arwain at drychineb. Serch hynny, byddai'n well eu hosgoi.

Mae ein hargymhellion hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth mewn ystyr arall. Themâu'r argymhellion hyn oedd sylfaen y cwestiynau a ofynnwyd mewn gwirionedd yn ystod yr Ymchwiliad. Fe'u profwyd nid yn unig gennym ni wrth ddod i gasgliadau ond hefyd drwy eu mesur yn erbyn ymatebion tystion i'r beirniadaethau posibl a godwyd. Prin iawn oedd y tystion a gafodd unrhyw anhawster wrth weld grym y pwyntiau ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn barod i gyfaddef yr hyn y dylid fod wedi'u defnyddio fel profion i reoli eu hymddygiad hwy ac eraill. Cafwyd anhawster nid yn nhermau'r cysyniad ond wrth i bobl ystyried a chanfod nad oeddent wedi bodloni'r syniadau a fynegwyd. Gallai ymddiriedaeth rhwng prifysgolion ac ysbytai fod wedi osgoi camau gwaethaf yr Athro van Velzen. Cytunodd pob un o'r tystion fod ymddiriedaeth o'r fath yn hanfodol ar gyfer y dyfodol.

Y Berthynas Rhwng Prifysgolion ac Ymddiriedolaethau

Waeth beth fydd y sefyllfa gytundebol sylfaenol, bydd y berthynas rhwng Prifysgolion ac Ymddiriedolaethau, o ran unigolion ac adrannau â swyddogaethau clinigol ac academaidd deul, yn un o onestrwydd llwyr i'r ddau gyfeiriad.

Bydd y ddyletswydd o ymddiriedaeth llwyr yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddwy ochr ddatgelu i'r llall unrhyw fater sylweddol sy'n ymwneud â pherfformiad yr unigolyn neu'r adran, boed yn glinigol neu'n academaidd.

Lle ceir unrhyw amheuaeth a yw mater o natur sylweddol, os yw'n ymwneud â gofal i gleifion dylid datrys yr amheuaeth bob amser o blaid datgelu.

Wrth benodi academyddion clinigol, dylid sicrhau cynrychiolaeth deg o'r ddwy ochr i adlewyrchu'r rhaniad arfaethedig rhwng sesiynau clinigol ac academaidd.

Wrth benodi ymgynghorwyr allanol dylid sicrhau eu bod yn wirioneddol allanol, hyd yn oed os nad ydynt yn gwbl annibynnol yn yr ystyr gyfreithiol. Nid oes unrhyw werth penodi ymgynghorwyr allanol mewn modd arwynebol er mwyn cael safbwynt mewnol sefydlog. Pan fyddant hwy neu gynrychiolwyr y Colegau Brenhinol yn rhoi cyngor, rhoddir ystyriaeth briodol i'r cyngor hwnnw. Wrth roi cyngor, bydd yr ymgynghorwyr allanol yn cadw mewn cof y gofyniad holl bwysig o ddarparu gofal i gleifion lle ceir gwrthdaro o ran buddiannau.

Llunnir un swydd ddisgrifiad ar gyfer academyddion clinigol ar y cyd i gynrychioli disgwyliad teg a realistig o'r gwaith a ragwelir gan y ddwy ochr.

Bydd gweithdrefn ar y cyd ar gyfer camau disgyblu yn erbyn unigolyn yr ystyrir ei fod yn methu. Bydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwahardd rhag gofalu am gleifion ar unwaith fel isafswm, waeth beth fydd y gofynion a'r safbwyntiau academaidd.

Cynhelir gwerthusiad blynyddol ffurfiol o unigolyn gan y ddwy ochr. Byddant yn rhannu eu gwybodaeth yn unol â'r ddyletswydd o onestrwydd llwyr er mwyn llunio datganiad ar y cyd o'r nodau ar gyfer y 12 mis canlynol y gellir barnu'r gwerthusiad nesaf yn eu herbyn.

Lle ceir anghytundeb, bydd y ddwy ochr yn ailystyried gan gofio bod gofal i gleifion yn holl bwysig. Os bydd yr anghytundeb yn parhau, gellir penodi cymrodeddwr, ond, beth bynnag, bydd yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau ar unwaith i sicrhau gofal priodol i gleifion.

Bydd y berthynas rhwng Prifysgolion a chyrff cyllido yn un o onestrwydd llwyr a bydd ystyriaethau tebyg yn berthnasol.

Mentrau Newydd

Lle yr ystyrir menter newydd, fel sefydlu Cadair neu adran, bydd y ddwy ochr lle bo'n briodol yn ystyried yn fanwl y nodau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt ac yn llunio cynllun busnes realistig cyn gwneud unrhyw ymrwymiad terfynol. Fel gyda phob un o'r materion hyn, os cynhwysir gofal i gleifion yn y fenter, gofal i gleifion fydd y peth pwysicaf wrth ei hystyried.

Bydd unrhyw fenter newydd yn destun systemau rheoli perfformiad manwl yn ystod ei chamau cynnar a chymerir camau priodol i addasu'r cynllun busnes yn ôl y gofyn.

Caiff unrhyw newid sylweddol i fenter bresennol ei drin fel menter newydd.

Archwiliad

Lle ceir rheswm da dros gredu y gallai unigolyn neu adran fod yn methu a bod hyn yn effeithio ar y gofal i gleifion, bydd yn ddyletswydd ar yr Ymddiriedolaeth â chydweithrediad y brifysgol i ymchwilio i'r mater, ar y cyd os yn briodol. Bydd yr ymchwiliad yn parhau hyd nes nodir y problemau neu ganfyddir mewn gwirionedd nad oes unrhyw broblem. Lle bo'n briodol, gofynnir am gymorth allanol annibynnol.

Lle nodir problemau, llunnir cynllun, ar y cyd lle bo'r angen, i'w datrys cyn gynted â phosibl.

Os na ddatrysir y broblem yn dilyn pob ymdrech ddiwyd, dylai'r ddwy ochr gadw cofnodion o'u hymdrechion a'r rhesymau dros fethu, gyda chofnodion o'r fath yn cael eu cyflwyno ar ffurf adroddiad i Swyddfa Ranbarthol Weithredol berthnasol y GIG.

Safonau Rheoli

Ni phenodir unrhyw glinigydd i swydd o awdurdod rheoli mewn ysbyty heb feddu ar y profiad clinigol perthnasol ar gyfer y swydd.

Ni ddylai unrhyw glinigydd ymgymryd â swydd rheoli tan y bydd wedi'i hyfforddi yn yr holl dechnegau rheoli angenrheidiol ac mewn unrhyw ofynion cyfreithlon perthnasol.

Ni ofynnir i unrhyw glinigydd gymryd cyfrifoldebau sy'n amharu ar ei allu i gyflawni gofal i gleifion hyd at y safon briodol.

Bydd rheolwyr ysbytai o gefndir a chalibr addas ar gyfer y swyddogaeth a ddisgwylir ganddynt, derbyniant yr holl hyfforddiant angenrheidiol (gan gynnwys addysg barhaus) a chânt eu gwerthuso yn rheolaidd o ran ansawdd eu perfformiad.

Bydd rheolwyr ysbytai heb gymhwyster meddygol yn gofyn am gyngor meddygol ar faterion perthnasol. Os bydd amheuaeth a oes angen cyngor ar unrhyw fater sy'n ymwneud â gofal i gleifion, dylid datrys yr amheuaeth drwy ofyn am gyngor.

Er mai gan y cyfarwyddwr meddygol neu'r cyfarwyddwyr clinigol y bydd rheolwyr ysbytai fel arfer yn gofyn am gyngor meddygol yn gyntaf, os bydd unrhyw amheuaeth sylweddol yn parhau byddant yn gofyn am gyngor gan ymgynghorwyr meddygol

arbenigol annibynnol neu'r Colegau Brenhinol, boed yn uniongyrchol neu drwy eu hymgynghorwyr rhanbarthol.

Pennod 9. Y Crwner

Argymhellion i Glinigwyr

- Bydd yr Adran Iechyd, y Colegau Brenhinol a'r ysgolion meddygol yn rhoi cyfarwyddyd i aelodau'r proffesiwn meddygol o ran union dermau a darpariaethau Deddf y Crwner 1988 ac yn benodol, yr amgylchiadau lle mae'n rhaid cofnodi achosion i'r Crwner.
- Bydd clinigwyr yn rhoi'r wybodaeth sylfaenol ganlynol i'r perthynas agosaf pan fydd archwiliad post mortem y Crwner i gael ei gyflawni.
 - Natur yr archwiliad, gan gynnwys yr angen am agor y corff a thynnu a phwysu organau.
 - Yr angen am samplau a'r angen am gadw organau o bosibl.
- Bydd clinigwyr sydd am gadw organau neu samplau ar ôl diwedd proses y Crwner at y dibenion a ganiateir ar hyn o bryd o dan Ddeddf Meinwe Ddynol 1961, yn dilyn yr Argymhellion ym Mhennod 10.
- Ni fydd clinigwyr yn crybwyll y posibilrwydd o archwiliad o dan awdurdodaeth y Crwner i'r perthynas agosaf oni ddylid cofnodi'r farwolaeth i'r Crwner.
- Bydd clinigwyr sy'n gwneud cais am archwiliad post mortem yr ysbyty ar ôl i'r Crwner wrthod awdurdodi archwiliad, yn egluro i'r perthynas agosaf nad oes unrhyw orfodaeth i gynnal archwiliad o'r fath.
- Bydd clinigwyr yn egluro cynnwys a goblygiadau adroddiad post mortem y Crwner i'r perthynas agosaf fel pe cyflawnwyd yr archwiliad fel archwiliad post mortem yr ysbyty ar eu hargymhelliad hwy.

Argymhellion i Grwneriaid

- Bydd Cymdeithas y Crwneriaid yn rhoi cyfarwyddyd i Grwneriaid fel a ganlyn:
 - wrth weithredu eu disgresiwn barnwrol yn gywir, ni ddylid dirprwyo'r penderfyniad i orchymyn archwiliad post mortem i un o Swyddogion y Crwner a dylid sicrhau bod Dirprwy Grwneriaid ar gael bob amser;
 - ni ddylid cadw organau oni fydd yn berthnasol i sefydlu achos marwolaeth a hynny dim ond lle dynodir yn ysgrifenedig gan batholegydd.
- Bydd y Swyddfa Gartref a Chymdeithas y Crwneriaid yn sicrhau y rhoddir unrhyw addysg feddygol angenrheidiol i Grwneriaid.
- Bydd y Swyddfa Gartref a Chymdeithas y Crwneriaid yn sicrhau y rhoddir unrhyw hyfforddiant angenrheidiol i Swyddogion y Crwner ac unrhyw staff ategol.
- Cyflwynir Crwneriaid, eglurir eu swyddogaeth a'u gweithdrefnau a gwahoddir y perthynas agosaf i fynegi unrhyw bryderon a cheisiadau penodol.
- Os gwneir penderfyniad i awdurdodi archwiliad post mortem, bydd Crwneriaid yn sicrhau yr hysbysir y perthynas agosaf am:
 - y rhesymau dros awdurdodi'r archwiliad post mortem;
 - eu hawl i ofyn i'r Crwner sicrhau y cyflawnir yr archwiliad gan batholegydd sy'n annibynnol ar yr ysbyty lle bu farw'r unigolyn;
 - lleoliad ac amser yr archwiliad ac enw'r patholegydd;
 - natur yr archwiliad, gan gynnwys yr angen am agor y corff a thynnu a phwysu organau;
 - yr angen am samplau a'r angen am gadw organau o bosibl;
 - eu dewis i ohirio'r angladd, tra bod y patholegydd yn paratoi ac yn archwilio unrhyw organau, er mwyn galluogi i'r organau gael eu dychwelyd i'r corff i'w gladdu neu ei amlosgi;

- eu dewis i gynnal angladd heb i'r organau gael eu dychwelyd, lle y'u gwahoddir i roi caniatâd i'r Crwner waredu'r organau mewn ffordd barchus;
- eu dewis i wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer gwaredu'r organau mewn ffordd barchus.
- Os gwneir penderfyniad i beidio ag awdurdodi archwiliad post mortem, bydd y Crwner yn hysbysu'r perthynas agosaf am y penderfyniad hwnnw ac yn rhoi rhesymau digonol dros y penderfyniad.
- Bydd Crwneriaid yn sicrhau y caiff samplau ac organau eu harchwilio a'u cofnodi yn sydyn.
- Bydd Crwneriaid yn sefydlu systemau effeithlon ar gyfer sicrhau adroddiadau post mortem terfynol yn dilyn archwiliad histolegol.
- Bydd Crwneriaid yn sicrhau y caiff unrhyw organau, meinwe, blociau, sleidiau, ffotograffau a lluniau pelydr-X presennol a gadwyd, eu dynodi o fewn unrhyw adroddiadau post mortem rhagarweiniol a therfynol.

Argymhellion i Batholegwyr

- Bydd Coleg Brenhinol y Patholegwyr yn rhoi cyfarwyddyd i bob histobatholegydd sy'n gweithio na ddylent gadw samplau ac organau heblaw'r rheini sydd eu hangen i sefydlu achos marwolaeth oni cheir caniatâd ysgrifenedig hefyd yn y modd priodol o dan Ddeddf Meinwe Ddynol 1961.

Pennod 10. Y Ddeddf Meinwe Ddynol

Argymhellion

Gyda pharch, argymhellwn:

- Bydd yr Adran Iechyd, y Colegau Brenhinol ac ysgolion meddygol yn rhoi cyfarwyddyd i aelodau'r proffesiwn meddygol o ran union dermau a darpariaethau Deddf Meinwe Ddynol 1961, ar sail ein dadansoddiad, a'r angen am gydymffurfio'n gaeth.
- Caiff Deddf Meinwe Ddynol 1961 ei diwygio i ddarparu prawf o ganiatâd cwbl wybodus i gynnal archwiliad post mortem cyfreithlon a chadw rhannau o gyrff pobl a fu farw. Er y daethom i'r casgliad na fu lawer o wahaniaeth rhwng 'diffyg gwrthwynebiad' a 'chaniatâd gwybodus' mewn termau ymarferol ar gyfer y perthynas agosaf, mae'n bwysig y caiff y gyfraith ac arfer yn y dyfodol eu cyfuno a'u diweddarau.
- Caiff y categori o bobl a fydd yn berthnasol wrth gael caniatâd cwbl wybodus ei ddiffinio fel y 'perthynas agosaf'.
- Ni fydd y categori 'unrhyw berthynas sy'n goroesi' bellach yn berthnasol i archwiliadau post mortem.
- Cynhelir rhaglen o addysg iechyd i'r cyhoedd yn berthnasol i'r angen meddygol am archwiliadau post mortem parhaus a mynediad i organau a samplau at ddibenion therapiwtig, addysgol ac ymchwil.
- Bydd yr Adran Iechyd, y Colegau Brenhinol ac ysgolion meddygol yn darparu hyfforddiant i bawb sy'n ymwneud â chael caniatâd cwbl hyddysg.
- Caiff Deddf Meinwe Ddynol 1961 ei diwygio i osod cosb droseddol drwy gyfrwng dirwy os torrir ei darpariaethau er mwyn annog cydymffurfio yn y dyfodol.
- Llunnir canllawiau yn ymwneud â gofynion Deddf Meinwe Ddynol 1961 a chael caniatâd cwbl hyddysg a gwneir darpariaeth ar gyfer mynd yn groes i'r canllawiau hyn a fydd yn golygu achos disgyblu a allai arwain at wahardd, diswyddo neu gosb ariannol.

- Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn gwneud darpariaeth ar gyfer camau adfer effeithiol heblaw am achos troseddol. Os bydd unrhyw achos o fynd yn groes i Ddeddf Meinwe Ddynol 1961 yn gyfystyr â mynd yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 rhoddir ystyriaeth i ymgorffori camau adfer ariannol o fewn Deddf Meinwe Ddynol 1961 ei hun. Os bydd angen, dylid cyfeirio'r mater at Gomisiwn y Gyfraith.

Pennod 11. Caniatâd

Cynhwysir Pennod 11 yn gyfan. Mae'n nodi ffordd ymlaen o ran caniatâd cwbl wybodus ac yn gwneud argymhellion ar gyfer ffurflen caniatâd post mortem newydd i'r GIG ei defnyddio gyda phlant.

Cynnwys

1. Caniatâd i gynnal Archwiliad Post Mortem ar Blant
2. Ffurflenni Caniatâd yn y Dyfodol
3. Ymagwedd Newydd tuag at Ganiatâd
4. Ffurflen Ganiatâd Post Mortem Ysbyty y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i'w Defnyddio gyda Phlant
5. Argymhellion

1. Caniatâd i gynnal Archwiliad Post Mortem ar Blant

1.1 Yn y Bennod flaenorol daethpwyd i'r casgliad bod angen caniatâd cwbl wybodus ac na fyddai unrhyw beth arall yn gwneud y tro. Rhaid i ganiatâd cwbl wybodus gael ei roi o wirfodd heb osod unrhyw bwysau. Mae hyn yn cymhwyso'r egwyddorion sylfaenol o barch tuag at y person, eu lles a'u dymuniadau.

1.2 Mae angen gwybodaeth gynhwysfawr i gael caniatâd dilys. Rhaid rhoi gwybod i'r rhieni am bob organ a gaiff ei gadw ac at ba ddiben y caiff ei ddefnyddio. Mae Dr Peart, Ymgynghorydd Cardioleg Paediatrig yn Alder Hey, yn derbyn bod yn rhaid i ffurflenni caniatâd fod yn benodol ar gyfer pob organ a gaiff ei gadw. Nid yw caniatâd cyffredinol yn ddigonol ar gyfer organau ond gellid ei ystyried ymhellach o ran cadw samplau meinwe bach at ddibenion diagnostig, addysg ac ymchwil feddygol.

1.3 Mae caniatâd cwbl wybodus yn golygu bod yn rhaid i'r person feddu ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad terfynol. Nid yw'n ddigon i glinigwyr hysbysu'r perthynas agosaf yr hoffent archwilio'r corff ar ôl marwolaeth a gallai hyn gynnwys tynnu rhywfaint o feinwe. Mae angen i'r perthynas agosaf ddeall beth sy'n digwydd mewn archwiliad post mortem, gan gynnwys disgrifiad o systemau corff cyfan, tynnu'r ymennydd a'r camau sydd eu hangen i dynnu amrywiol organau, waeth pa mor ddi-chwaeth y gallai rhoi'r wybodaeth hon fod i'r clinigydd dan sylw.

1.4 Ystyr tadofalaeth yn y cyd-destun hwn yw'r polisi o gyfyngu rhyddid a chyfrifoldebau dibynyddion lle yr ystyrir bod gwneud hyn er budd iddynt hwy.

1.5 Derbyniwn y gallai fod yn amhleserus i rai clinigwyr ddarparu'r wybodaeth fanwl sydd ei hangen i gael caniatâd. Fodd bynnag, ni ellir osgoi eu cyfrifoldeb. Prawf ymarferol i'r clinigydd wrth ystyried a roddwyd gwybodaeth lawn ganddo yw holi a allai unrhyw fanylion arwyddocaol nas crybwyllwyd fod wedi arwain at benderfyniad gwahanol gan y perthynas agosaf. Os felly, ni fydd y prawf ar gyfer caniatâd cwbl wybodus wedi'i fodloni.

1.6 Daw'r mater o ganiatâd i'r amlwg yn ystod cyfnod o alar eithriadol. Serch hynny, dylid cwblhau archwiliad post mortem cyn gynted â phosibl er mwyn cael y canlyniadau clinigol gorau. Nid yw'n bosibl gadael digon o amser i'r galar leddfu. Felly, dylid trafod caniatâd gyda sensitifwydd, gonestrwydd a'r manylion angenrheidiol i alluogi clinigwyr i gyflawni eu dyletswydd.

1.7 Mae clinigwyr yn cytuno mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i gael caniatâd cwbl wybodus. Gyda hyfforddiant cywir, dylent allu cyfathrebu'n effeithiol ac yn gydymdeimladol gyda'r wybodaeth feddygol angenrheidiol i hysbysu'r perthynas agosaf. Rhaid iddynt ddeall gwerth a phroses archwiliad post mortem yn y lleoliad clinigol a hefyd yr hyn y mae'n ei olygu i berthnasau. Ystyriwn mai'r arfer clinigol gorau yw i glinigwyr weithio'n agos â phatholegwyr a all eu cynorthwyo wrth benderfynu pa organau y dylid eu cadw at y dibenion perthnasol. Gallant hefyd gynorthwyo rhieni wrth ddarparu manylion sy'n ymwneud ag achos y farwolaeth.

1.8 Dylid addysgu'r cyhoedd i ddeall sut y caiff meinwe ddynol ei storio a'i harchifo fel adnodd parhaus er budd cymdeithas yn gyffredinol. Er enghraifft, mae'r boblogaeth gyffredinol yn elwa ar well dealltwriaeth o afiechydon a chyflwynir triniaethau mwy effeithiol. Caiff yr epidemig ffliw blynyddol ei reoli'n well nawr nag erioed o'r blaen. Gall ymchwilwyr gael mynediad i archifau i astudio math penodol blaenorol o firws ffliw a thrwy hynny wella triniaethau ataliol wrth i'r math hwnnw ailymddangos mewn unrhyw flwyddyn benodol.

1.9 Os yw profiad Lerpwl yn cynrychioli'r arfer cyffredinol, mae'n rhaid bod archifau sylweddol o ddeunydd dynol mewn amrywiol leoliadau ledled y wlad, y rhan fwyaf ohonynt wedi'u tynnu'n anghyfreithlon. Ni allwn wneud iawn am y drygau a wnaed wrth gael y deunydd hwnnw, ond gallwn nawr ystyried beth ddylai ddigwydd yn y dyfodol. Mewn perthynas ag organau neu feinwe a gedwir, mai'r hawl gan y perthnasau sy'n goroesi i wneud cais am waredu parchus, a rhaid rhoi'r cyfle hwnnw iddynt. Os na fydd y perthnasau yn mynnu gwaredu parchus nawr, gallai'r deunydd hwn fod o werth mawr i gymdeithas, os caiff ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil ac addysg yn y dyfodol.

2. Ffurflenni Caniatâd yn y Dyfodol

2.1 Rydym wedi ystyried nifer o ffurflenni caniatâd ar gyfer archwiliadau post mortem ysbytai. Tan yn ddiweddar, roedd pob un o ffurflenni caniatâd Alder Hey yn cyfeirio at 'feinwe' yn unig ac nid at 'organau'. Mae'r rheini yn awyddus i ddefnyddio'r termau a ddiffinnir fel a ganlyn:

'Meinwe': Casgliad o gelloedd wedi'u harbenigo i gyflawni swyddogaeth benodol.

'Organ': Rhan o'r corff sy'n cynnwys mwy nag un feinwe sy'n ffurfio uned strwythurol sy'n gyfrifol am swyddogaeth benodol.

2.2 Rydym hefyd wedi ystyried model o ffurflen ganiatâd a gynhwysir yn y cyhoeddiad gan Goleg Brenhinol y Patholegwyr ym mis Mawrth 2000 sef 'Guidelines for the Retention of Tissues and Organs at Post Mortem Examination'. Mae'r model yn ffurfiol ac yn gymhleth.

2.3 Nid oedd unrhyw un o'r ffurflenni a welsom yn darparu sylfaen i glinigwyr gael caniatâd cwbl wybodus ac yn nodi a chofnodi'r penderfyniad yn gywir. Mae iaith glir, anffurfiol yn hanfodol. Ymddengys po fwyaf swyddogol yw'r ffurflen, y lleiaf effeithlon

yw ei gweithredu. Mae dealltwriaeth, yn arbennig mewn galar, yn hanfodol. Awgrymwn ymagwedd newydd.

3. Ymagwedd Newydd tuag at Ganiatâd

3.1 Mae angen dogfen fwy hyblyg ond ffurfiol, yn nodi'r holl opsiynau mewn ffordd glir. Dylid ei defnyddio yn genedlaethol. Dylai'r ddogfen fod ar ffurf cwestiwn ac ateb â'r gallu i gwmpasu anghenion unrhyw achos unigol. Dylid ei chwblhau ar y cyd gan y clinigydd, ymgynghorydd profedigaeth a'r perthynas agosaf. Clywsom dystiolaeth fod y nyrsys cyswllt cardiaidd ac arbenigol yn Alder Hey wedi ymgymryd yn llwyddiannus â'r rôl o gynorthwyo rhieni a chlinigwyr wrth gael caniatâd. Mae'r system yn gweithio'n dda ac mae'r clinigwyr, cymaint â'r rhieni, yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir ganddi. Dylai ymgynghorwyr profedigaeth gyflawni'r rôl hon mewn cyd-destun ehangach ac argymhellwn y dylid mabwysiadu'r system hon yn genedlaethol.

3.2 Bydd y ffurflen yn hwy na'r ffurflen bresennol. Bydd hyn yn caniatáu i'r cwestiynau gael eu llunio mewn modd mwy sensitif ac i gwmpasu pob maes sy'n angenrheidiol ar gyfer caniatâd cwbl wybodus. Dylai gynnwys unrhyw gyfarwyddyd gan y perthynas agosaf o ran gwaredu'r organau neu'r feinwe yn derfynol. Dylid darparu copi o'r ddogfen wedi'i llofnodi gan y clinigydd, yr ymgynghorydd profedigaeth a'r perthynas agosaf i'r perthynas agosaf. Gallai adrannau diweddarach ar yr un ffurflen ymdrin â materion eraill sy'n ymwneud â'r farwolaeth, y gall yr ymgynghorydd profedigaeth gynorthwyo â hwy. Bydd y cofnod ysgrifenedig hwn yn sicrhau bod clinigwyr yn cyflawni eu cyfrifoldeb i ddarparu'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r perthynas agosaf. Yna gall y perthynas agosaf gyflawni'r cyfrifoldeb sydd arnynt hwy yn ôl Deddf Meinwe Ddynol 1961, i wneud penderfyniad gwybodus.

3.3 Unwaith y caiff y ffurflen ganiatâd ei llofnodi, ein dewis dull ni fyddai i'r perthynas agosaf ildio unrhyw reolaeth bellach. Byddai'r ildio hwn yn amodol ar hawl y perthynas agosaf i ddnodi, yn dilyn cwblhau'r diben y'i cadwyd ar ei gyfer, sut y dylid gwaredu'r deunydd yn barchus. Byddai hyn yn cynnwys eu gofynion crefyddol penodedig. Rydym eisoes wedi datgan bod yn rhaid egluro defnydd bwriadedig unrhyw organ i'w gadw, yn llawn i'r perthynas agosaf. Dylid ystyried agwedd fwy rhyddfrydig o ran cadw a defnyddio meinwe, yn arbennig ar ffurf blociau cŵyr a sleidiau. Mae'r rhain o fudd amhrisiadwy o ran ymchwil ac addysgu. Gallent hefyd fod yn adnodd pwysig i deuluoedd y gallent fod am gael mynediad i ddeunydd archifol er budd eu teulu a chenedlaethau'r dyfodol.

3.4 Mae meinwe a gedwir yn ased amhrisiadwy at ddibenion diagnostig yn ogystal â dibenion ymchwil. Unwaith y ceir caniatâd cwbl wybodus i'w gadw a'i ddefnyddio, dylai ymrwymiad yr ysbyty i'w ddefnyddio a gwaredu'r gweddill yn barchus fod yn ddigonol. Pe na fyddai hynny'n digwydd, byddai gennym sefyllfa lle byddai gan glinigwyr/ymchwilwyr/athrawon gwrs rhwystrau anodd i'w drafod. Gallai hyn gynnwys ceisiadau niferus i rieni am ganiatâd ychwanegol wrth i'r ymchwil wreiddiol ddatblygu ac arallgyfeirio neu wrth i fuddiannau newydd ddod i'r amlwg. Dylai'r caniatâd i gadw meinwe fod yn gyffredinol, er mwyn caniatáu defnydd o fewn projectau ymchwil a gymeradwywyd yn foesebol cyhyd ag y caiff ei thrin yn barchus drwy gydol y broses, gan gynnwys ei gwaredu'n derfynol.

3.5 Nodir isod enghraifft o gynnwys y ffurflen ganiatâd a ragwelir gennym. Bwriedir y rhestr at ddibenion trafod ac nid yw'n benodedig.

4. Ffurflen Ganiatâd Post Mortem Ysbyty y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i'w Defnyddio gyda Phlant

4.1 Adran 1

Manylion y Claf:

- Enw'r ysbyty
- Enw'r plentyn
- Cyfeiriad
- Dyddiad geni
- Dyddiad marwolaeth
- Lleoliad marwolaeth
- Perthynas agosaf
- Perthynas â'r plentyn
- Cyfeiriad
- Ymgynghorydd yn yr ysbyty
- Rhif cyswllt
- Rhif cyfeirnod yr ysbyty
- Rhifau ffôn/ffacs
- Meddyg teulu
- Cyfeiriad
- Rhifau ffôn/ffacs
- Ymgynghorydd profedigaeth penodedig
- Dyddiad penodi
- Rhifau ffôn/ffacs

4.2 Adran 2

Diben archwiliad post mortem yr ysbyty yw sefydlu:

- Achos marwolaeth
- Effeithiau llawdriniaeth
- Effeithiau triniaeth
- Cywirdeb y diagnosis

4.3 Adran 3

Gallai'r archwiliad post mortem gynnwys:

- Y corff cyfan
- Y frest a'r abdomen
- Mynediad wedi'i gyfyngu i doriad llawfeddygol
- Samplau bach o organau penodedig

4.4 Adran 4

Caniatâd:

- Caniatâd i gynnal archwiliad post mortem llawn
- Gellir cyfyngu'r caniatâd i organau penodedig
- Gellir gwrthod caniatâd

4.5 Adran 5

Dibenion cadw organau:

- Diagnostig
- Therapiwtig
- Addysg feddygol
- Ymchwil

4.6 Adran 6

Dibenion cadw meinwe:

- Diagnostig
- Therapiwtig
- Addysg feddygol
- Ymchwil
- Er mwyn galluogi i organau aros yn y corff
- Er mwyn galluogi i organau gael eu dychwelyd i'r corff ar gyfer yr angladd

4.7 Adran 7

Dylid cyflwyno cais am ganiatâd i gadw organau neu feinwe *ar ôl cwblhau* proses y Crwner *cyn* cyflawni archwiliad post mortem y Crwner. Ni ddylid gwahaniaethu yn y broses ganiatâd rhwng cadw organau ar ôl cwblhau proses y Crwner ac archwiliad post mortem yr ysbyty.

4.8 Adran 8

Cadw - rhaid nodi, cydnabod a pharchu agweddau personol tuag at y corff yn dilyn marwolaeth

Dylid nodi, egluro a thrafod gyda'r perthynas agosaf:

- Pob organ i'w gadw
- Diben cadw'r organ
- Cadarnhad mai dim ond at y diben y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer gan y perthynas agosaf y caiff yr organ(au) a gadwyd ei ddefnyddio (eu defnyddio)
- A ddychwelir yr organau i'w harchwilio i'r corff cyn yr angladd - os na chânt:
 - Am faint y byddai'n rhaid gohirio'r angladd i gwblhau'r archwiliad cyn y gellir dychwelyd yr organau i'r corff
 - A fyddai'r perthynas agosaf am ohirio'r angladd ai peidio
 - Dylid cyhoeddi tystysgrif i gadarnhau y dychwelwyd yr organau i'r corff cyn yr angladd, i'r perthynas agosaf
 - Caiff organau a gedwir ar ôl yr angladd eu nodi a sicrhau bod ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi gyda'r organau drwy gydol eu defnydd at ddiben perthnasol
 - Samplau meinwe a diben eu cadw
 - A gaiff y feinwe ei defnyddio at ddibenion therapiwtig, addysg feddygol neu ymchwil yn dilyn ei defnydd diagnostig
 - A yw'r perthynas agosaf yn rhoi caniatâd i gadw'r organ neu'r feinwe:
 - ◇ Mewn casgliad
 - ◇ Mewn archif
 - ◇ Fel samplau microsgopig
 - ◇ Dyddiad pryd, lleoliad a chan bwy y dyfarnwyd cymeradwyaeth foesebol os mai ymchwil yw diben eu cadw
 - ◇ A ellir cadw'r organ neu'r feinwe heb gyfyngiad amser ar gyfer addysg feddygol neu ymchwil ar yr amod y cânt eu trin yn barchus
 - ◇ Hawl y perthynas agosaf i roi cyfarwyddyd i waredu'r organ neu'r feinwe yn barchus ar ôl cwblhau'r diben y cadwyd yr organ neu'r feinwe ar ei gyfer

4.9 Adran 9

Llofnodion:

- Y perthynas agosaf ar gyfer archwiliad post mortem
- Gwrthlofnod y clinigydd, yr ymgynghorydd profedigaeth neu dyst arall fel y bo'n briodol
- Dyddiad, amser a lleoliad llofnodi'r caniatâd

Rydym wedi ceisio nodi'r materion y mae'n rhaid i'r clinigydd eu hystyried er mwyn cael caniatâd cwbl wybodus gan y perthynas agosaf. Mae'r safon yn uchel ond yn gyraeddadwy o gael perthynas agored, ddidwyll a gonest rhwng y clinigydd a'r perthynas agosaf. Teimlwn y gellir cynorthwyo'r broses hon drwy sicrhau bod ymgynghorydd profedigaeth ar gael, yn arbennig gan ei bod yn debygol y bydd y perthynas agosaf yn galaru. Ystyrir swyddogaeth yr ymgynghorydd profedigaeth yn y bennod nesaf.

5. Argymhellion

5.1 Gyda pharch, argymhellwn:

- Yn dilyn archwilio'r organau neu'r feinwe a gadwyd, y dylid cynnal cyfarfod rhwng y clinigydd a'r rhieni a'u cyfeirio i gael cwnsela genetig neu gyngor arbenigol arall lle y bo'n briodol.
- Unwaith y ceir caniatâd cwbl wybodus at ddibenion ymchwil, mae hawl gan yr ymchwilydd gadw'r deunydd tra bydd yr ymchwil yn mynd rhagddi. Argymhellwn y dylid ehangu hyn i gynnwys cael mynediad i archifau a dadansoddiadau DNA. Erys unrhyw ymchwil yn amodol ar gymeradwyaeth y pwyllgor moeseg.
- Dylid rhoi rôl oruchwylio i bwyllgorau moeseg lleol o ran ymchwil a gymeradwywyd gan yr heddlu.

Pennod 12. Ymgynghorydd Profedigaeth

Cynhwysir Pennod 12 yn gyfan. Ystyrir rôl yr ymgynghorydd profedigaeth gan gynnwys argymhellion.

Cynnwys

1. Cefndir
2. Argymhellion

1. Cefndir

1.1 Ar ddiwedd yr 1980au a dechrau'r 1990au darparodd gweithwyr cymdeithasol cardiaidd wasanaeth wrth gefn 24 awr yn Adran Gardiaidd Alder Hey a byddent yn eistedd gyda rhieni a ddiodeffodd brofedigaeth gan siarad â hwy. Yn aml, byddai'r clinigwyr yn cymryd cyngor gan y gweithwyr cymdeithasol cardiaidd yn nhermau pryd y gallai rhieni ymdopi â derbyn y wybodaeth angenrheidiol yn dilyn marwolaeth eu plentyn. Roedd y system yn llwyddiannus iawn, ac yng nghanol yr 1990au disodlwyd y gweithwyr cymdeithasol cardiaidd gan nyrsys cyswllt cardiaidd. Mae'r gwasanaeth bellach cystal â'r system a ddisodlwyd.

1.2 Mae nyrs gyswllt gardiaidd ar gael bob amser i ymgynghori ag ef/hi yn Alder Hey. Ceir nyrs gyswllt gardiaidd yn y gymuned hefyd a gefnogir gan Sefydliad Prydeinig y Galon sydd ar gael i siarad â rhieni ar unrhyw bryd.

1.3 Yn eu tystiolaeth, nododd y rhieni yr angen am y math hwn o wasanaeth. Ni ddylid ei gyfyngu i'r adran gardiaidd, ond dylai fod ar gael yn gyffredinol. Yn ei Arweiniad Interim ar Archwiliadau Post Mortem a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2000, nododd y Prif Swyddog Meddygol y dylai pob un o Ymddiriedolaethau Ysbytai'r GIG benodi unigolyn penodol o fewn yr Ymddiriedolaeth a fydd ar gael i ddarparu cymorth a gwybodaeth i deuluoedd plant a fu farw lle gallai fod angen archwiliad post mortem, boed yn ôl cais meddyg ysbyty neu'r Crwner. Dylai'r person hwn fod wedi'i

hyfforddi i ymdrin â phrofedigaeth. Teimlwn mai ymgynghorydd profedigaeth fyddai'r person i gyflawni'r swyddogaeth hon.

1.4 Rhaid cynnwys rhieni wrth wneud penderfyniadau yn ogystal ag wrth wneud cais am gymorth a'i dderbyn. Y nod yw eu cynorthwyo yn y cyfnod anodd yn dilyn marwolaeth. Rhaid nodi a pharchu eu teimladau a'u hanghenion personol. Derbyn gwybodaeth gywir, gyson, wedi'i chydlyn yw eu hangen pennaf. Dylid egluro'n llawn y dewisiadau sydd ar gael i rieni, gan ddarparu'r holl wybodaeth angenrheidiol. Rhaid rhoi amser iddynt gyda'i gilydd a chyda'u plentyn. Rhaid sicrhau amser hefyd i wneud trefniadau ymarferol. Rhaid eu trin gyda pharch ac urddas bob amser.

1.5 Ni ddylai'r ymgynghorydd profedigaeth fod yn feirniadol wrth ddelio â rhieni. Rhaid rhoi gwybodaeth glir, ffeithiol, diduedd i rieni. Dylid osgoi dryswch. Hwyrach y bydd angen help ar y rhieni wrth ystyried beth yr hoffent ei ofyn a hyd yn oed wrth ofyn eu cwestiynau i'r clinigydd. Ni ddylid osgoi unrhyw bwnc a dylid eu trin gyda gonestrwydd hyd yn oed oes yw'r gwirionedd yn boenus. Rhaid parchu eu cyfrinachedd bob amser. Dylai'r ymgynghorydd profedigaeth geisio sicrhau yr ymdrinnir â rhieni yn deg gan y clinigydd a phobl broffesiynol eraill a rhaid sicrhau bod amser ar gael i fodloni anghenion y rhieni.

1.6 Dylid deall y gall galar gael ei fynegi mewn ffyrdd gwahanol mewn diwyllianau gwahanol. Mae natur galar yn bersonol ac yn breifat. Mewn ysbyty, sy'n ymddangos yn aml yn amheronol ac yn gyhoeddus, dylid sefydlu man preifat lle gall yr ymgynghorydd profedigaeth a'r rhieni gyfarfod a threulio amser gyda'i gilydd neu ar eu pen eu hunain. Rhaid rhoi amser, lle a chymorth i rieni ail-fyw, ystyried a siarad am yr hyn sydd wedi digwydd iddynt.

1.7 Dylai hyfforddiant ymgynghorydd profedigaeth gynnwys defnydd priodol o iaith, yr angen am ddarparu sylw personol ac am ragweld gofynion perthnasau sydd wedi dioddef profedigaeth.

1.8 Rhaid iddynt feddu ar ddealltwriaeth lawn o weithdrefnau post mortem a chyflwyno caniatâd. Bydd hyn yn cynnwys nodi a gwahaniaethu rhwng archwiliad post mortem y Crwner ac archwiliad post mortem yr ysbyty. Dylent allu cael gafael ar wybodaeth gan glinigwyr a phatholegwyr ynghylch nodi organau i'w cadw a ph'un a gânt eu cadw ar ôl yr angladd ai peidio. Rhaid i'r hyfforddiant gynnwys pam fod yn rhaid 'paratoi' rhai organau cyn eu harchwilio a'r cyfnod o amser sydd ei angen i 'baratoi' ac archwilio organau penodol.

1.9 Rhaid i'r ymgynghorydd profedigaeth allu roi cyngor ar bob agwedd ar yr angladd gan gynnwys dychwelyd organau i'r corff yn dilyn archwiliad post mortem, neu nodi organau, meinwe, blociau, sleidiau, lluniau pelydr-X a ffotograffau a gedwir ar ôl yr angladd. Bydd angen ymwybyddiaeth o'r holl weithdrefnau angladdol, gofynion crefyddol a diben gwasanaethau coffa.

1.10 Bydd elfen seicolegol i hyfforddiant ymgynghorwyr profedigaeth, yn ymwneud â chyfathrebu sensitif â pharch yn ogystal â thrin pynciau anodd fel caniatâd i weithdrefn post mortem yn ofalus. Bydd angen sgiliau cyswllt arnynt er mwyn trafod materion gyda chlinigwyr, Crwneriaid a phobl broffesiynol eraill.

1.11 Dylai'r ymgynghorydd profedigaeth geisio cynnwys y patholegydd yn fwy agored gyda chlinigwyr a rhieni. Bydd y patholegydd o gymorth penodol o ran egluro pam y cedwir organau ac at ba ddibenion, gan gynnwys therapiwtig, addysg feddygol ac ymchwil, y cedwir organau neu feinwe.

1.12 Dylid rhoi bob cyfle i rieni fynegi eu dymuniadau o ran gwaredu organau yn derfynol. Gall ymgynghorydd profedigaeth hwyluso'r broses hon. Rhaid parchu dymuniadau rhieni. Ni ellir gorbwysleisio'r angen am barch.

1.13 Dylai fod gan bob ysbyty ymgynghorydd profedigaeth. Dylid darparu swyddfa benodol a chynnwys man eistedd preifat i rieni neu berthnasau.

2. Argymhellion

2.1 Rydym wedi ystyried y dystiolaeth ac argymhellwn y dylai swyddogaethau ymgynghorydd profedigaeth gynnwys:

- Egluro amgylchiadau'r farwolaeth, gan nodi pryd, lle a phwy oedd yn bresennol.
- Trefnu a mynychu cyfarfod ar gyfer perthnasau gydag unrhyw un a oedd yn bresennol ar adeg y farwolaeth os gofynnir am hynny.
- Annog cyfarfod rhwng y perthnasau a'r clinigydd a fu'n trin y plentyn i egluro amgylchiadau clinigol y farwolaeth ac, os gofynnir am hynny, trefnu a mynychu'r cyfarfod.
- Sicrhau y rhoddir esboniad llawn i berthnasau am y rhesymau dros gynnal archwiliad post mortem gan gynnwys therapiwtig, addysg feddygol ac ymchwil.
- Egluro'r angen am ganiatâd i gynnal archwiliad post mortem yr ysbyty (HPM) a chadw organau.
- Egluro bod angen caniatâd i gadw organau yn dilyn archwiliad post mortem y Crwner (CPM) a bod yn rhaid cael caniatâd cyn cynnal y CPM.
- Sicrhau y rhoddir digon o amser, preifatrwydd a chymorth i berthnasau ystyried y cais am ganiatâd i gynnal HPM neu gadw organau yn dilyn CPM neu HPM.
- Penderfynu a fydd clinigydd yn bresennol yn yr archwiliad post mortem.
- Trefnu cyfarfodydd rhwng rhieni, clinigydd a phatholegydd fel y bo'n briodol.
- Nodi trafodaethau rhwng perthnasau, clinigwyr a phatholegwyr a darparu copi i bob parti perthnasol.
- Datblygu a defnyddio pecynnau gwybodaeth i berthnasau ar bob agwedd ar farwolaethau mewn ysbytai.
- Cynorthwyo perthnasau gyda'r materion ymarferol canlynol:
 - casglu eiddo personol y plentyn a fu farw a threfnu i'w dychwelyd i'r perthnasau;
 - sicrhau y darperir tystysgrif marwolaeth a'r hysbysiad ffurfiol;
 - egluro'r weithdrefn ar gyfer cofrestru'r farwolaeth;
 - darparu cymorth wrth fynychu'r swyddfa gofrestru os gofynnir am hynny;
 - trefnu cyswllt gyda'r cyfarwyddwr angladdau;
 - trefnu cyswllt gyda chaplan yr ysbyty a/neu offeiriad lleol yn ôl y gofyn;
 - cysylltu â swyddfa'r Crwner fel y bo'n briodol;
 - cynnig mynychu os bydd angen cysylltu â'r heddlu;
 - sicrhau y rhoddir gwybod i'r meddyg teulu;
 - sicrhau y rhoddir gwybod i ysgolion fel y bo'n briodol (gan gynnwys ysgolion brodyr a chwiorydd);
 - cynorthwyo'r perthnasau wrth roi gwybod i bobl eraill gan gynnwys perthnasau eraill, ffrindiau a chyflogwyr, am y farwolaeth a'r canlyniadau;
 - cynorthwyo'r perthnasau wrth ddelio â'r Asiantaeth Budd-daliadau, cwmni yswiriant a materion tai;
 - cynorthwyo'r perthnasau i osod cyhoeddiadau mewn papurau newydd os byddant am wneud hynny.

- Trafod anghenion cwnsela neu anghenion cymorth hir dymor gyda pherthnasau, gan gynnwys anghenion aelodau'r teulu ehangach a chysylltu ag asiantaethau cwnsela/cymorth priodol os gofynnir am hynny.
- Sicrhau bod y perthnasau yn ymwybodol o'r amrywiaeth lawn o adnoddau cwnsela/cymorth sydd ar gael, gan gynnwys y rheini y tu allan i'r ysbyty a dwyn sylw'r perthnasau at y materion hyn.
- Trefnu gwasanaethau cyfieithu/dehongli gan gynnwys gwasanaethau i bobl â nam ar eu clyw neu nam ar eu golwg a darparu gwybodaeth briodol yn ysgrifenedig/ar dâp.
- Cynorthwyo ag unrhyw broblem bersonol unigol arall a gyflwynir gan berthnasau yn sgîl marwolaeth.
- Ymgymryd â dyletswyddau cyswllt cyffredinol.

2.2 Bwriedir i'r rhestr hon fod yn enghreifftiol yn hytrach na'n benodedig. Rhaid sicrhau cyrsiau hyfforddiant cydnabyddedig i ymgynghorwyr profedigaeth. Dylid ardystio cymwysterau, efallai ar lefel Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol. Dylid cynnal asesiadau a gwerthusiadau blynyddol fel mater o arfer a dylid rheoli perfformiad y rôl. Mae addysg a hyfforddiant parhaus yn hanfodol. Dylai'r ymgynghorydd profedigaeth weithio'n agos â rheolwyr yr ysbyty, clinigwyr, y Crwner a'r amrywiaeth lawn o wasanaethau anfeddygol gan gynnwys cwnselwyr a phobl broffesiynol eraill anfeddygol. Wrth gwrs ni fydd rhai perthnasau am ddefnyddio gwasanaethau ymgynghorydd profedigaeth. Serch hynny dylid cynnig y gwasanaeth i bawb, felly hefyd y cyfleuster i ddychwelyd at yr ymgynghorydd profedigaeth pe byddent wedi gwrthod gwasanaeth yn y lle cyntaf.

2.3 Y gwahaniaeth rhwng nyrs gyswllt gardiaidd a'r ymgynghorydd profedigaeth yw fod y fantais gan y nyrs o gael cyswllt â'r rhieni yn y cyfnod cyn y farwolaeth. Awgrymwn y bydd rhai agweddau ar swyddogaeth aml-factor yr ymgynghorydd profedigaeth yn dod â hwy i gysylltiad â'r rhieni cyn i'w plentyn farw.

2.4 Roedd y gefnogaeth tuag at y cysyniad o ymgynghorydd profedigaeth gan rieni a chlinigwyr yn galonogol. Cymeradwywn y cysyniad i'w ddatblygu a'i weithredu.